# ADOLYGIAD BLYNYDDOL TRWYDDEDU TELEDU

## 2017-2018

## Y Cynllun Talu Syml

Yn 2018, roedd deddfwriaeth newydd yn caniatáu i ni dreialu'r Cynllun Talu Syml, ar gyfer cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu.

Fe all cwsmeriaid sy'n gymwys ddewis o blith amryw o gynlluniau talu sy'n rhannu cost Trwydded Deledu dros 12 mis.

## Cost casglu'r Drwydded Deledu

- £61.4m — Costau casglu: canolfannau galwadau, swyddogion ymholi, datgeliad
- £16.3m — Cyfathrebu: llythyrau atgoffa ac ymgyrchoedd gwybodaeth
- £11.7m — Postio
- £7.0m — Newidiadau i Ffi'r Drwydded
- £2.8m — Gweinyddu a rheoli contractau
- £1.8m — Dibrisiant systemau newydd

CYFANSWM COSTAU CASGLU **£101m**

## Mynd yn ddi-bapur

Does arnoch ddim angen trwydded bapur, mae gennych un wedi'i chadw ar lein yn barod. Os ydych yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol neu un taliad blynyddol, gallwch newid i e-drwydded.

BELLACH MAE TUA **8.4m** YN DERBYN EU TRWYDDED DELEDU TRWY E-BOST.

## Nifer y trwyddedau

**25.8m**

Mae nifer y trwyddedau mewn grym yn uwch nag erioed o'r blaen, dros **25.8m**.

## Rydym yma i helpu

Mae rhai pobl yn cael trafferth fforddio ffi'r drwydded, tra bo eraill o bosib ag anabledd sy'n effeithio ar eu gallu i gyfathrebu â ni.

**480**

Rydym yn gweithio gyda thros **480** o sefydliadau cyngor ariannol a chymunedol ar hyd a lled y wlad.

## Cynnydd yn ffi'r drwydded

Yn 2016 fe gyhoeddodd y Llywodraeth y byddai ffi'r drwydded yn codi'n unol â chwyddiant am bum mlynedd o 1 Ebrill 2017.

**Erbyn hyn mae Trwydded Deledu safonol yn costio:**

**£150.50**

## Cynhyrchu incwm

Yn 2017/18, roedd incwm ffi'r drwydded yn **£3,830m (dros £3.8bn), sef cynnydd o £43m** ar y flwyddyn flaenorol.

**£3.8bn+**




**ADOLYGIAD BLYNYDDOL TRWYDDEDU TELEDU**

**Mae Trwyddedu Teledu yn helpu pobl i ddeall pryd mae arnyn nhw angen Trwydded Deledu a sicrhau bod gwylwyr wedi'u trwyddedu'n gywir.**

Y llynedd, fe wnaethon ni barhau i gasglu ffi'r drwydded yn y ffordd fwyaf gost-effeithol, gan ddod ag incwm ar gyfer rhaglenni a gwasanaethau'r BBC. Rydym yn gweithio'n galed hefyd i ddatblygu newidiadau a gwelliannau i'n cynlluniau talu a'n polisïau i'w gwneud yn haws nag erioed i bobl dalu – yn enwedig i'r rhai sy'n ei chael yn fwyaf anodd.

## Gostwng cwynion

Rydym wedi gostwng cwynion am yr wythfed flwyddyn yn olynol – i lawr dros **54%** ers 2010/11.

**54%**

## Cyfradd osgoi isel*

Mae'r ganran sy'n osgoi ffi'r Drwydded deledu rhwng **6.5% a 7.5%, ac mae 92.5% neu 93.5%** o gyfeiriadau wedi'u trwyddedu'n gywir.

Mae dros **50%** o'r holl ymweliadau yn digwydd rhwng 4pm a 9pm, neu ar benwythnosau.

Eleni fe ddalion ni 243,700 o bobl yn gwylio'r teledu heb drwydded.

**243,700**

## Sut mae ein cwsmeriaid yn talu

Mae yna wahanol ffyrdd o rannu'r gost, felly gall cwsmeriaid ddewis y cynllun talu sy'n addas iddyn nhw.

**FFYRDD O DALU**

| Ffordd o dalu | % |
| --- | --- |
| Swyddfa'r Post (Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw) | 0.1% |
| Bancio Ar Lein | 0.1% |
| Cerdyn cynilo | 1.3% |
| Siec drwy'r post | 2.1% |
| PayPoint | 3.5% |
| Cerdyn talu | 6.8% |
| Cerdyn Credyd/Debyd | 10.8% |
| Debyd Uniongyrchol | 75.3% |

## Trwyddedu Teledu ar lein

Roedd tua **8.8m** o drafodion trwy ein gwefan – **10%** yn uwch na'r flwyddyn flaenorol.

62.5% o ymweliadau â'r wefan yn digwydd trwy ffonau symudol a thabledi

Dros 83% o gwsmeriaid o gwsmeriaid yn dewis derbyn eu trwydded trwy e-bost wrth brynu trwydded.

64% o drwyddedau newydd yn cael eu prynu ar lein.

**64%**

Mae bron i dri chwarter y cysylltiadau â chwsmeriaid trwy sianeli hunanwasanaeth.

**Gallwch weld sut cafodd Ffi'r Drwydded ei gwario yn 2017/18 trwy fynd i wefan y BBC.**

Dilynwch ni ar Twitter **@TVLicensingNews**

Rydym ar YouTube yn **youtube.com/tvlicensing**

Gallwch weld delweddau a graffeg Trwyddedu Teledu ar Flickr **www.flickr.com/photos/tvlicensing**

TV LICENSING
TRWYDDEDU TELEDU

I gael gwybod mwy am Drwyddedu Teledu, ewch i **www.tvlicensing.co.uk/info**

*Gellir amcangyfrif ffigurau osgoi'r Drwydded Deledu o fewn ystod yn unig, oherwydd mai amcangyfrifon yw rhai o'r ffigurau a ddefnyddir wrth gyfrifo. Nid yw newidiadau o lai nag 1% yn arwyddocaol yn ystadegol.